

JONES, REES ('Amnon '; 1797 - 1844)

Enw: Rees Jones
Ffugenw: Amnon
Dyddiad geni: 1797
Dyddiad marw: 1844
Priod: Mary Jones
Rhyw: Gwryw
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Thomas Oswald Williams

Ganwyd yn Nhalgarreg 8 Hydref 1797; yr oedd yn frawd hyn i [John Jones](#) (1802 - 1863). Collodd ei dad ac yntau yn 12 oed. Bu yn ysgol [Davis](#) Castellhywel a medrai Ladin, ond oherwydd amgylchiadau teuluaidd fe'i tynnwyd o'r ysgol, ac amaethwr a fu drwy'i oes. Priododd, yn ifanc, Mary, merch Nantyrmenyn, ac ymaelododd ym Mhantymdefaid. Collodd ei briod ymhen naw mlynedd, ac yn 1828 priododd eilwaith. Bu farw 15 Chwefror 1844 yn 46 mlwydd oed, a chladdwyd ef ym mynwent Pantymdefaid. Erys ei goffa yn fyw fel awdur *Crwth Dyffryn Cletwr*, 1848. Cyfansoddai yn y mesurau caeth a rhydd, a dengys ei ganeuon feddwl blaengar. A chofio iddo adael yr ysgol cyn ei fod yn 15 oed, dengys y *Crwth* addewid fawr. Y mae llawer o'i ganeuon hyd heddiw ar dafod ardal, a chofir am ' Politics Pegy,' ' Fy Nhacdu,' ' Awdl Gofiant Beirdd Ceredigion,' ' Ymddiddan rhwng David Lloyd a Sara Gwaralltyryn,' ac y mae tinc heddiw yn ei gân, Cwyn Gweithdai y Tlodion.' Gwnaeth fwy, hwyrach, drwy ei ganeuon nag odid neb i ddeffro meddwl ardal â'i gadw yn rhyddfrydig.

Awdur

Y Parchedig Thomas Oswald Williams, (1888 - 1965)

Ffynonellau

Crwth Dyffryn Cletwr sef, gwaith barddonol y diweddar Rees Jones, Pwllffein, Llandyssul, Ceredigion

Seren Gomer, Mai 1843

Hanes Plwyf Llandyssul (1896), 169-72

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Rees Jones](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [63794746](#)

Wikidata: [Q18535727](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

